Cenn@d

MEHEFIN 18 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 225

# Bywyd â Phwrpas: *Purpose Driven Life* bellach yn Gymraeg




Mae *The Purpose Driven Life* gan Rick Warren yn cael ei ystyried yn fyd-eang fel clasur Cristnogol cyfoes. Bellach, mewn partneriaeth gyda Chymanfa Bedyddwyr Arfon a Gweinidogaeth ryngwladol Rick Warren mae cyfieithiad safonol Cymraeg ar gael.

Mae Bywyd â Phwrpas yn eich helpu i ddeall cynllun anhygoel Duw ar eich gyfer yma ar y ddaear ac i dragwyddoldeb. Bydd Rick Warren yn eich arwain ar daith ysbrydol 40-diwrnod a fydd yn eich helpu i ateb y cwestiwn, "Pam ar y ddaear ydw i yma?" Bob dydd, byddwch yn dysgu mwy am sut y mae Duw wedi eich creu yn unigryw ac i bwrpas arbennig.

RICK WARREN yw'r bugail a sefydlodd Eglwys Saddleback yn Ne California sydd â safleoedd mewn llawer o brif ddinasoedd ar draws y byd. Ef yw awdur Bywyd â Phwrpas, sydd wedi ei gyfieithu i lawer o ieithoedd ac sydd wedi gwerthu 50 miliwn o gopïau ym mhob fformat.

Aeth Arwel E Jones, sydd yn ddiacon ac un o arweinwyr Eglwys Caersalem Caernarfon ers degawdau ati i gyfieithu'r gyfrol 340 tudalen hon. Mae ganddo brofiad helaeth yn cyfieithu deunyddiau Cristnogol ac emynau cyfoes. Diolch iddo am ymroi i fynd ati i gyfieithu'r gyfrol er mwyn sicrhau bod cyfieithiad Cymraeg o'r gyfrol bwysig hon gennym.




**Sut i gael gafael ar yr eLyfr**

Mae gweinidogaeth Rick Warren yn dosbarthu y llyfr ar ffurf digidol AM DDIM. Gellir cael gafael ar y copi digidol YMA.

**Sut i archebu copi caled**

Gellid archebu copiau unigol yn uniongyrchol o wefan gweinidogaeth Rick Warren drwy glicio yma.

Neu, gellid archebu 10 copi am £60 drwy law Ysgrifennydd Cymanfa Bedyddwyr Arfon, Aled Davies, drwy gysylltu ag ef: aled@ysgolsul.com / 07894 580192.




Pererindod Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli
Tudalen 2

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iachâu
Tudalen 3

Iesu a Joseff yn dad iddo
Tudalen 7

# Pererindod Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli



Yn un o'i gerddi ar y testun 'Cymru' wrth feddwl am waith a dylanwad yr Ysbryd Glân yn hanes ein gwlad, fe ganodd y bardd Gwenallt:

Bu'r angylion yma'n tramwy,  
Ar dy ffyrdd mae ôl eu troed,  
A bu'r Ysbryd Glân yn nythu,  
Fel colomen, yn dy goed.

Ei atgyfodiad oedd dy wanwyn,  
A'th haf Ei iechydwriaeth las,  
Ac yng nghaeaf dy fynyddoedd,  
Codai dabernaclau gras.

Cawsom fynd heibio y cartref lle maged Gwenallt ym Mhontardawe. Ac ar ddiwrnod digon dymunol ddechrau'r haf, ar ddydd Mawrth y 10fed o Fehefin, dan arweiniad y Parchg. Beti-Wyn James cafodd gweinidogion ein Cymdeithas bererindota i fwynhau amgylchfyd gwladol ac ysblennydd Cwm Tawe. Ymwelsom â rhai o hen dabernaclau Ymneilltuol yr ardal ynghyd ag ymweld â Chapel y Nant, Clydach, eglwys newydd Gymraeg gorfforwyd yn 2008 pan ymunodd tri chapel yn y pentref i ffurfio eglwys newydd. Yn ystod y bore, yng ngwmni'r Parchg Dewi Myrddin Hughes a'i briod Annette cawsom groeso cynnes ganddynt gan gylwed am fywyd a threfn yr eglwys, ac wedi gweld y ffenestr liw i gofio am y Parchg. Gareth Thomas, a symudwyd i Gapel y Nant o gapel Hebron, cawsom wedyn fwynhau paned a chlonc a thrafodaeth yng nghwmni Dewi ac Annette.

Roedd y daith wedi cychwyn gydag ymweliad i Barc Ynystawe gyda'i gyfleusterau hamdden a meysydd chwaraeon, chwaraeodd ran ffurfiannol yn mywyd ifanc Beti-Wyn. Cawsom weld yno hefyd y garreg hanesyddol godwyd i gofio Hopcyn ap Thomas, uchelwr Cymraeg diwylliedig o'r bedwaredd ganrif ar ddeg oedd yn berchen ar lawysgrifau 'Llyfr Coch Hergest' ac a fu'n gefnogol i Owain Glyndŵr yn ystod ei wrthryfel ddechrau'r ganrif ddilynol.

Ond heb os, uchafbwyntiau y daith oedd ymweld â hen gapeli yn y mynydd-dir uwchlaw Cwm Tawe. Yn gyntaf, capel Gellionnen, ar Fynydd Gellionnen, capel yn perthyn i'r Annibynwyr yn ei ddechreuadau, ond a droes yn gapel yn perthyn i'r Undodiaid, a hynny yng nghysgod dadleuon poeth ynghylch athrawiaeth y Drindod ddiwedd y ddeunawfed ganrif pan ymwahanodd y gynulleida a addolai yn y capel a ffurfio Capel y Baran, ychydig filltiroedd i ffwrdd ym Mynydd y Baran, capel ac achos a arddelai athrawiaeth y Drindod a chred yn yr Ysbryd Glân. A dyna'r capel mynyddig nesaf i ni ymweld ag ef, ac wedi cael ychydig hanes yr ymrafaelio diwinyddol cynnar yn hanes y ddau le, cawsom ginio yn yr awyr agored ar dir Capel y Baran. I lawr wedyn o'r mynydd, ac wedi croesi drwy Rhydyfro aethom i fyny Mynydd y Gwryd, a gweld yng nghanol yr unigedd hen Gapel y Gwryd, ac yna ymlaen i weld maen coffa i John Dyfnallt Owen, y gweinidog dylanwadol, y bardd bregethwr, cyn Archdderwydd, hanesydd a chyn Gadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ac am leoliad bendigedig i'w faen coffa. Do, gwnaethom fwynhau yr olygfa banorama rhyfeddol ar Fynydd y Gwryd. I lawr o'r mynydd wedyn drwy bentref Rhiwfawr i lawr y dyffryn gan ddilyn cwrs yr afon Tawe, ar y ffordd yn ôl i Glydach, gan alw heibio Capel Seion yn y Glais, a chael hanes diddorol yn gysylltierdig â'r capel a'r fynwent – Niclas y Glais, T J Morgan, a bedd y teulu Rowlands a gollodd fab ac wyr yn nrychuneb y Titanic yn 1912. Ymlaen wedyn i gapel yr Annibynwyr Pantycrwys yng Ngraig Cefn Parc, gan fwynhau'r olygfa yn edrych ar draws dyffryn yr afon Clydach a thros y cwm. Yno cawson ein cyflwyno i feddau dau gyn Achdderwydd sef Crwys a Dafydd Rowlands ynghyd â beddau beirdd a gweinidogion megis Gareth Watts a Sion Alun sydd wedi eu claddu yn y fynwent. Coffa annwyl amdanynt.

Yna aethom ymlaen i dafarn New Inn yng Nglydach lle cynhalwyd ein cyfarfod busnes blynyddol, ac yna ar ddiwedd y dydd, mwynhau swper blasus yn y dafarn. Cawsom ddiwrnod hyfryd a braf ac adeiladol wedi cael ein cyflwyno i gymaint o hanes ein traddodiad fel Ymneilltuwyr, gan ymweld â mannau cysegredig, y gwyddai llawer ohonom amdanynt ond nad oeddem wedi ymweld â'r mannau hyn a phrofi o rin a rhamant yr hyn sydd gan Gwm Tawe i'w gynnig. Diolch Beti-Wyn. A phob un ohonom, yn ein hamser ein hunain, yn dymuno ymweld eto â'r mannau cyfareddol hyn.

*Emyr Gwyn Evans*

# Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu

Gofynnwyd i mi'n garedig gan ysgrifennydd y Weinidogaeth Iacháu, Nerys Rowlands, i roi ychydig o'm hargraffiadau o'r ysgol haf a gynhaliwyd unwaith yn rhagor eleni yng Nghefn Lea rhwng 19-22 o fis Mai.

Oherwydd cyfnod y Covid a blynyddoedd o afiechyd wedyn, ni fûm yn medru mynychu'r ysgol hon am saith mlynedd. Euthum iddi gyntaf ryw ugain mlynedd yn ôl. Mewn gwirionedd nid yw ei dylanwad ar y sawl a'i mynycho wedi newid rhyw lawer. Oddi ar y cychwyn bu'r ysgol yn gyfle unigryw i dyfu'n bersonol ac yn ysbrydol. Ni'm siomwyd yn hyn o beth eleni gan i'r pedwar diwrnod llawn o weithgareddau adael marc a bery'n hir ar y galon. Roedd yna ddyfnder yn galw ar ddyfnder, a galwad i agor fy hunan ac eraill i waith ysbrydol dwfn, ac i wrando'n fwy manwl ar lais Duw. Llywyddwyd yn ddeheuig gan y Parch. Dr. Nerys Tudor sydd wedi bod yn biler yn hanes yr Ysgol Haf ers blynyddoedd. Roedd pob sesiwn a gynhaliwyd: yr oedfaon gweddi plygeiniol a'r astudiaethau beiblaidd dan arweiniad amrywiol gyfeillion; y canu mawl dan arweiniad gitaraidd Arfon Jones; y darlithiau, y gwasanaeth bendithio a'r gwasanaeth cymun, yn mynd â ni ar daith fewnol o adferiad ac iachâd lle teimlem Dduw a'r Ysbryd Glân yn bresennol mewn ffyrdd cynnil a phwerus.

Gosodwyd sail gadarn i weithgareddau'r wythnos gan wasanaeth agoriadol diffuant dan arweiniad Mrs Margarita Lewis, Caerdydd. Rhannodd â'r gynulleidfa brofiadau ysbrydol mawr.

Traddodwyd y ddarlith agoriadol gan y Parch. Eric Jones a fu'n gaplan yn Ysbyty Gwynedd am bymtheg mlynedd ar hugain. Eglurwyd yn fanwl ganddo yr ysbrydoledd mewn ysbyty. Roedd yn agoriad llygad i'r neb sy'n gweinidogaethu ac yn ymweld â chleifion. Teimlwn ryw gynhesrwydd tawel yn ei draethu a hefyd y tynerwch hwnnw yn ddiau y bydd yn ymarfer wrth gysuro cleifion. Y mae ei ddarlith a gyhoeddwyd eisoes dan y teitl 'Cysuro'r Claf' yn un o'r llyfrau prin hynny sy'n rhoi arweiniad diogel i weinidogion ac eraill sy'n ymweld ag ysbytai. Cafwyd dwy ddarlith ysbrydoledig gan y Dr. Rhiannon Lloyd, cyn feddyg Meddyginiaeth a Seiciatreg. Oddi ar iddi hi yn bersonol brofi iachâd Cristnogol gwyrthiol pan oedd yn ifanc, bu'n weithiwr Cristnogol amser llawn oddi ar 1985 gan weinidogaethu mewn amrywiol sefyllfaoedd trawsddiwylliannol ar draws y byd. Clywyd ganddi am y modd y bu'n gweithio i sicrhau gweinidogaeth cymodi yn Rwanda, De Affrica, y Congo, a nifer o wledydd eraill. Adroddodd am y wyrth o bobl a fu'n lladd teuluoedd yn dod at ei gilydd yng Nghrist. Ei phrif thema oedd mai angen mwyaf Cymru yw



ailddarganfod gwaith yr Ysbryd Glân. Yn yr eglwysi Cymraeg y gwelir y dirywiad mwyaf, ac felly rhaid gweddïo'n ddyfal am ddiwygiad ac adfywiad mawr. Mentrodd fynegi bod yna gymylau bychain o obaith i'w gweld yma a thraw megis Gŵyl Llanw lle gwelir pobl ifanc brwdfrydig yn rhoi eu gobaith yn Iesu Grist. Thema'r ail ddarlith oedd 'Croesawu Presenoldeb Duw.' Trwy ddarlunio gwaith yr Ysbryd Glân fel colomen, ac olrhain yr hyn a wnaeth yn yr Ysgrythur, mentrodd awgrymu mai ein tasg fel Cymry yw rhoi lle i'r golomen nythu eto yng Nghymru. Prif amod hynny yw bod Cristnogion yn ymostwng mewn edifeirwch a gweddïo. Daeth i'm meddwl eiriau 2 Cronicl 7: 14 ' . . . ac yna bod fy mhobl a elwir wrth fy enw, yn ymostwng a gweddïo, a'm ceisio a dychwelyd o'u ffyrdd drygionus, yna fe wrandawaf o'r nef, a maddau eu pechod ac adfer eu gwlad.' Ac nid dyna'r unig ddyfyniad a gynhyrfodd fy ysbryd. Pan ofynnodd Rhiannon inni ymdawelu a chanolbwyntio a myfyrio yr hyn sydd gennym i'w wneud yn y cyfnod sych ysbrydol hwn, fe'm cyfarwyddwyd i 2 Brenhinoedd 3: 16, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd: Gwnewch y dyffryn hwn yn llawn ffosydd. Oherwydd fel hyn y dywed yr Arglwydd: Ni welwch na gwynt na glaw; eto llenwir y dyffryn hwn â dŵr, a chewch chwi a'ch eiddo a'ch anifeiliaid yfed.' Bûm yn cnoi cil ar y geiriau hynny am ddiwrnodau wedyn ar ôl darlith gofiadwy Rhiannon Lloyd hyd nes imi yn y diwedd ildio i'r alwad i lunio pregeth ar y testun, 'Cloddio Ffosydd Duw.'

Rhaid cyfeirio at ddau wasanaeth arall a wnaeth gryn argraff arnaf, sef y Gwasanaeth Bendithio nos Fercher dan arweiniad y Parch Eleri Edwards a'r Gwasanaeth Cymun a oedd dan ofal Miss Glynis Owen. Cafwyd dwy bregeth rymus gan y gwragedd eneiniedig hyn. Yn dilyn traethiad ac arweiniad annwyl a thyner Eleri, braf oedd gweld cymaint yn dod ymlaen i gael eu bendithio a'u heneinio gan yr olew. Rhaid gwerthfawrogi gweddïo didwyll a thaer yr eiriolwyr wrth iddynt arddodi dwylo. Roedd hon yn oedfa wlithog iawn gyda'r Ysbryd Glân yn ein hamgylchynu ac yn gosod ei law dyneraf arnom ni i gyd. Yn yr oedfa olaf cyn inni ymadael â Chefn Lea gweinyddwyd y cymun yn raenus sanctaidd gan ddarpar lywydd yr Eglwys Bresbyteraidd, Miss Glynis Owen.

Un o amcanion allweddol y Weinidogaeth Iacháu yw i 'bregethu teyrnas Dduw ac i iacháu cleifion yn enw Iesu Grist.' Nid anghofiwyd am eiliad yr amcan mawr hwn oherwydd neilltuwyd cyfarfodydd gweddi i weddïo dros gleifion y nodwyd eu henwau yn y Llyfr Eiriolaeth.

Un o fendithion Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu yw'r cyfle inni o bob cwr o'r wlad i ddod at ein gilydd a rhannu profiadau ysbrydol. Gwnaed hynny'n helaeth yn yr Astudiaethau Beiblaidd ac yn y sesiwn olaf cyn ymadael. Yn wir ni chlywais dystiolaethau o iacháu mor rymus erioed. Roedd clywed tystiolaeth loyw fel yr un a gafwyd gan Huw Lewis, yn sôn am yr iachâd gwyrthiol a gafodd, yn anhygoel.

Wrth fynd oddi yno ddydd Iau teimlem ein bod wedi cael ein gorlenwi â phresenoldeb Duw a'r Ysbryd Glân. Un argraff arbennig a adawyd arnaf oedd i rai fynegi rhyw fath o ddigalondid yn y ffaith eu bod - ar ôl cael profiadau pen y mynydd yr Ysgol Haf - yn gorfod mynd yn ôl i'w capeli yn teimlo'n amddifad ac yn unig. Yng Nghefn Lea cawsant y frawdoliaeth honno lle roedd pawb ar yr un donfedd ysbrydol. Yn sicr, fel fi, gobeithiaf iddynt gael eu digoni yn ysbrydol ynghyd â'r hwb a'r ysbrydoliaeth i ddychwelyd i'w capeli eu hunain - er mor anodd yw'r dasg bellach - i 'gloddio ffosydd' mewn ffydd; i ddyfalbarhau i lafurio mewn gras, ac i ddisgwyl pethau mawr gan Dduw.

I mi y mae'r Weinidogaeth Iacháu yn enghraifft brin o'r wir Eglwys yn cyfarfod bellach: y mae'n werddon i'n disychedu yn anialwch ysbrydol Cymru. Rydym yn ddyledus iawn i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am sicrhau ei threfniant a'i pharhad.

Diolch i'r trefnwyr, yn enwedig Nerys Rowlands a'r pwyllgor, am drefnu rhaglen mor gyfoethog a chofiadwy ar ein cyfer

*Euros Jones Evans*

# Cymdeithasfa lawn a mwyn yn Nhrefaldwyn, Mai 14eg 2025

Roedd yn bleser cael bod yn rhan o gynrychiolaeth ohonom o'r Gogledd Ddwyrain aeth am y diwrnod i Gymdeithasfa Llanfair Caereinion, a bod yno yn y cnawd i werthfawrogi croeso arbennig yr ardal. Roedd hi'n ddiwrnod braf o wanwyn a bu inni fwynhau golygfeydd godidog iawn ar y ffordd yno yn y car. Mae Capel Moreia ble roeddem yn cyfarfod wedi ei addasu yn ddiweddar ar gyfer cynnal gwahanol weithgareddau ac mae awyrgylch arbennig yn yr holl adeilad. Roedd cinio a the wedi ei baratoi yn yr Institiwt oedd ychydig lawr y ffordd a hwnnw yn adeilad diddorol. Gwnaed casgliad wrth y byrddau at Gyfeillion Ysbyty Gobowen yn ôl dymuniad y pwyllgor lleol.

Dan Lywyddiaeth Meinir Lloyd Jones, Penrhyndeudraeth aethpwyd drwy'r agenda yn rhwydd a chawsom glywed o dalaith Manipur yng Ngogledd yr India ble mae 30,000 o bobl wedi gorfod gadael eu cartrefi. Roedd ymwelydd gyda ni o'r enw Thangboi Haokip, oedd wedi gorfod ffoi gyda'i deulu i Mizoram gerllaw, a chlywsom ei hanes a'i obeithion ar gyfer ei bobl a'r eglwys yn eu plith. Bydd Apêl y Llywydd eleni yn cynorthwyo gydag ariannu addysg a gwasanaethau iechyd i'r rhai sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi.

Cawsom ein hatgoffa gan ein Ysgrifennydd Cyffredinol, Parchedig Nan Wyn Powell-Davies fod Lleuwen Steffan ar daith arall drwy Gymru gyda band cerddorol yn ei chynorthwyo tro yma a'i bod hithau wedi bod yn y gwersyll i ffoaduriaid o Manipur ar ei thaith i Mizoram yn ddiweddar. Clywsom hefyd am y camau gweithredu yn dilyn y Gynhadledd ar Adeiladau yn Llandudno ym mis Ebrill. Rhannodd am yr angen i rymuso yr eglwys leol a gweld mwy o waith cenhadol a gweinidogaeth yn ein hardaloedd. Mae'r nod yma yn cyd fynd gyda'r angen inni ailstrwythuro fel enwad hefyd. Ar hyn o bryd mae 63% o wariant EBC ar adeiladau a 37% ar weinidogaeth ac angen gweld troi hynny o gwmpas.

Clywsom fel y bydd y Gymanfa Gyffredinol yn Llandudno eleni yn dilyn trefn debyg i llynedd ble bydd nos Lun yn ddathliad o weinidogaeth a chenhadaeth gan groesawu Jasmine Rishmawni, Cristion o Balesteina, sydd yn astudio yn ddiwinyddol ym Mrwsel, yno i siarad. Yr unig beth arall inni ei gofio yn Llandudno oedd i wylio'r gwylanod wrth fwyta unrhywbeth!

Yn ystod y dydd cyflwynwyd tri enw o'r gogledd ar gyfer bod yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 2027 - 29, sef Parchedigion Robert Parry, W Bryn Williams ac Anna Jane Evans. Cawsom adroddiad gan Marion Simkin, Llywydd y Chwiorydd ac eglurodd fod y llyfr thema newydd ar gael, sef Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd. Cafwyd Dathliad y Chwiorydd ym Mlaenau Ffestiniog yn ddiweddar gydag anerchiad gan Joseff Edwards, Craig Blaenau a chafwyd bendith yn y cyfarfod a'r cymdeithasu wedyn.



Rhai fu'n rhan o gyfarfod pnawn y Sasiwn ynghyd â'r 8 oedd yn bresennol yno i'w llongyfarch.
Rhes Gefn, Parchedigion Aneurin Owen, Christopher Prew, Nerys Tudor

Canol, Roland Parry, Deganwy (50), Wyn Davies, Rhiwlas (40), John Huw Roberts, Llandyrnog (50), John Eric Hughes, Abergele (50), Myfyr Hughes, Y Bala (50), Derfel Roberts, Abergeirw (40), Gladys Hughes, Rhostrehwfa (40), John Jones Cynllwyd (60)

Blaen, Nia Wyn Williams, Meinir Lloyd Jones ac Annora Johnson.

Yn adroddiad yr ysgrifennydd o'r pwyllgor gwaith fe gyfeiriwyd at yr adroddiadau o'r henaduriaethau ar y weinidogaeth a chenhadaeth dan eu gofal. Anogwyd inni sylwi ar syniadau newydd ac arferion da a bod yn barod i weddïo dros y cyfan ohono. Cafwyd golwg ar sefyllfa'r eglwysi yn henaduriaeth Trefaldwyn gydag adroddiad cynhwysfawr wedi ei baratoi gan Annora Johnson, ysgrifennydd yr henaduriaeth. Holwyd hi gan Gwyndaf Richards ac roedd llawer o le i ddiolch am y ffyddlondeb oedd yn eu plith ac i weddïo hefyd am fendith Duw ar yr eglwysi bychain hyn led led yr ardal o Coventry i Machynlleth.

Rhoddwyd lle i drafod cenadwrïau o'r Henaduriaethau – un yn galw ar EBC i ystyried diwygio'r drefn o bleidleisio i ethol blaenoriaid fel ag i ganiatáu i aelodau nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod eglwysig gael llais yn y bleidlais.

Un arall yn galw ar leihau'r amser aros i gael trefnu angladd anwyliaid.

Cenadwri arall oedd i gryfhau'r cysylltiad sydd rhwng gwaith arloesol arbennig mewn sawl ardal yng Nghymru a'u Henaduriaethau lleol gan annog y Cyfundeb drwy eu goruchwyliaeth o'r gweithwyr i hwyluso pob cyfathrebu a chydweithio rhwng gwaith cenhadol newydd ac eglwysi traddodiadol.

Yng nghyfarfod y prynhawn, a welodd lenwi capel hardd Moreia, fe gafwyd cyfle i longyfarch blaenoriaid a wasanaethodd am gyfnodau sylweddol yn ein plith. Cafwyd cyfeiriad arbennig gan y llywydd at Clifford Owen o Lanfairfechan a oedd i ddathlu 60 mlynedd yn flaenor ac yn bwriadu bod yn bresennol, ond a laddwyd mewn damwain yn ddiweddar. Estynnwyd pob cydymdeimlad â'i deulu. Ymatebwyd ar ran bawb oedd yn cael eu llongyfarch gan John Eric Hughes Abergele a ddiolchodd am y modd y cafodd y weithred ei gwneud yn un brydferth ac am y diolchgarwch oedd wedi ei ennyn yn lleol hefyd. Bu coffa am weinidogion (4) a blaenoriaid a oedd wedi ein gadael ers y cyfarfod diwethaf.

Arweiniwyd ni at fwrdd y cymun gydag anerchiad pwrpasol ar yr atgyfodiad a'r gwragedd fu'n ymweld â'r bedd gwag gan y Parch Diane Stirling, sy'n aelod bellach yn eglwys Moreia, Llanfair Caereinion. Canwyd emynau gan Ann Griffiths yn ystod y dydd, a braf oedd cael Linda Jones o Ddolwar Fach efo David Jones ymhlith yr organyddion.

Bu diolch i'r Llywydd am ei haraith ymadawol ac am ei llywyddiaeth gartrefol, a dymuniadau gorau a phob bendith i'r Parchedig Christopher Prew, Porthmadog ar ei gyfnod yntau fel Llywydd ac arweiniodd yntau ni at Fwrdd y Cymun ar ddiwedd y dydd. Bu trefnu trylwyr a llawer o lafur yn lleol i baratoi ar gyfer y Gymdeithasfa, ac mae ein dyled iddyn nhw yn lleol yn Nhrefaldwyn yn fawr iawn ac i bawb a wnaeth yr achlysur yn wir le o Gymdeithasfa lawn a llawen.

Edrychwn ymlaen ar Gymdeithasfa'r Hydref yn Rhuthun ar Hydref 14eg.

*Marian Lloyd Jones, Rhosllannerchrugog*

# Aros a disgwyl, disgwyl bob dydd – a oes ysbryd o weddi yn codi yn ein plith?

Bu'r ffyrdd o gwmpas y tŷ yn cael eu codi yn ystod y misoedd diwethaf yma er mwyn gosod peipen nwy newydd. Dipyn o boen oedd meddwl am aros yn y goleuadau traffig cyn cael mynd ymlaen ar y daith, a rhyfedd hefyd oedd gweld pobl yn aros yn un rhes hir yn eu ceir o flaen y tŷ a gweld amrywiol raddau eu hamynedd!

O'm profiad fy hun ac o edrych ar y rhai oedd yn aros, mae'n gallu bod yn ddigon rhwystredig cael ein dal yn ôl rhag cyrraedd y man y dymunwn fod.

Ond dyna oedd gorchymyn Iesu i'w ddisgyblion ar ei esgyniad yn ôl i'r nef 40 diwrnod ar ôl ei atgyfodiad: 'arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth' (Luc 24:49).




Roedd y comisiwn mawr wedi ei roi iddyn nhw i fynd a chyhoeddi edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw i'r holl genhedloedd. Dyma waith mawr ac angen cychwyn arno yn syth! Ond, mae Iesu'n gofyn iddyn nhw aros ac i ddisgwyl am nerth yr ysbryd Glân i gyflawni'r gwaith mawr yma. Yn yr aros, mae'n nhw'n ymroi i weddïo am y nerth yma ac i ddisgwyl wrth yr Arglwydd. Dydyn nhw ddim yn cael eu siomi, oherwydd ar ddydd Y Pentecost mae'r aros yn dod i ben wrth i Ysbryd Glân Iesu ddod yn nerthol i'w plith gan lenwi'r tŷ lle roedden nhw a'u llenwi hwythau hefyd â nerth oddi uchod. (Actau 2:1-4).

Yn ystod wythnos gyntaf Mehefin, fe gafodd llawer ohonom yn fraint o ymuno efo'n gilydd mewn modd debyg wrth i wythnos o weddi cenedlaethol gael ei chynnal yn eglwysi'n Cyfundeb. Mae'n siŵr bod dros 120 wedi dod ynghyd ar y nos Lun mewn 20 o ganolfannau dros Gymru ac yn Llundain. Roedd pawb yn dod ynghyd yn yr un lle drwy gyfrwng zoom a'r we, yn debyg i'r disgyblion a'r dilynwyr cyntaf oedd wedi dod yn 120 ynghyd erbyn dydd y Pentecost. Fe gawsom barhau mewn gweddi bob nos dan arweiniad gwahanol adrannau ac unigolion o fewn ein Cyfundeb. Roedd 55 o sgriniau bychain wedi ymuno yng nghyfarfod gweddi'r chwiorydd nos Fawrth. Nos Fercher wedyn fe gawsom ein hannog i weddïo dros ein hardaloedd a'n cyflwyno i weithwyr led led y wlad a chlywed am waith oedd angen ein gweddïau yma yng Nghymru. Nos Iau, fe fu rhai yn ymuno am gyfnodau neu'r cwbl o 4air awr rhwng 7 ac 11 o'r gloch, gan ganfod rhyw ddyfnder mewn gweddi sy'n dod mewn cyfnodau estynedig felly o weddïo. Cawsom ein cyflwyno i brosiectau cenhadol yma a thramor a chyfle i weddïo dros y cwbl. Roedd hi'n fendith mawr cael disgwyl gyda'n gilydd am yr Arglwydd yn y gwahanol gyfarfodydd. Bu gweddïo wedyn ar fore Gwener wrth i'r criw ffyddlon sy'n dod ynghyd i gofio am Manipur barhau i wneud hynny. Cafwyd anogaeth i drefnu teithiau gweddi yn ein hardaloedd ein hunain i gloi yr wythnos. Hon yw'r ail wythnos weddi swyddogol sydd wedi ei threfnu ar ein cyfer, a braf yw teimlo rhyw ysbryd newydd o weddi yn codi yn ein plith. Mae'n diolch yn fawr i'r tîm dan arweiniad Owen Griffiths, fu ynglŷn a'r trefnu â'r paratoi.

Gormod o ddisgwyl a dim digon o weithredu meddech chi! Cawn ein hatgoffa yng nghanol pob gweddïo a disgwyl, nad yw yr Arglwydd yn gweithredu dim o'i fwriadau heb osod pobl ar waith i weddïo drostyn nhw. Cofiwn am yr addewid a roddwyd i Solomon yn yr Hen Destament ar adeg cysegru'r deml: ''ac yna, bod fy mhobl, a elwir wrth fy enw, yn ymostwng ac yn gweddïo, yn fy ngheisio ac yn dychwelyd o'u ffyrdd drygionus, yna fe wrandawaf o'r nef, a maddau eu pechod ac adfer eu gwlad.' (2 Cron. 7:14)

Am flynyddoedd, fe fuom yn diolch bod bobl eraill mewn gwledydd eraill yn rhoi diolch am y newyddion Da o Gymru ac yn cofio am ein gwlad mewn gweddi. Oni fu dros filiwn o aelodau Eglwys Bresbyteraidd yr India yn y Gogledd Ddwyrain yn cael eu hannog i gofio am Gymru bob wythnos a llawer mwy yn Corea? Er y gweddïo hwnnw, yr oeddem yn hiraethu yma ar i ni ein hunain gael ein codi mewn gweddi dros ein heglwysi a'n gwlad ein hunain. Cawsom ragflas da o hynny yn ystod yr wythnos a gweddïwn y bydd yn parhau, ac y bydd yr Arglwydd yn ein helpu i ddisgwyl wrtho mewn gweddi o ddydd i ddydd ac y gwelwn ni eto gyflawni ei addewid i roi nerth grymus yr Ysbryd inni oddi fry.

'Mae digonedd cyflawn eto
yn yr hen addewid wiw;
glynwn ninnau wrth weddïo
am ymweliad Ysbryd Duw;
O tywallter
ef yn helaeth arnom ni.'

(Roger Edwards 576 C.Ffydd)

*HP-D*

*(Allan o Fwletin Gofaleth Cylch yr Wyddgrug a Bro Treffynnon.)*


## Llongyfarchion o'r Gogledd ddwyrain

Ymhlith enwau'r rhai sydd wedi eu hanrhydeddu am wneud cyfraniad sylweddol i'r bywyd Cymreig yn rhestr y rhai sydd i'w codi i'r orsedd eleni yn eisteddfod Wrecsam, mae Ceinwen Parry, Treuddyn. Mae Ceinwen yn llywydd ein gwaith chwiorydd fel eglwys yng ngogledd Cymru ac wedi bod yn flaenor yn ein plith yn Nhreuddyn gyda'i gŵr Noel ers 1976. Diolchwn am ei hymroddiad yn ein plith ninnau ac am yr anrhydedd yma sydd wedi dod i'w rhan. Mae amryw eraill mewn cysylltiad â'n heglwysi a'n cymunedau yn y Gogledd Ddwyrain wedi eu hanrhydeddu hefyd. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

*HP-D*

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Gwers 17 Dameg a Diarhebion**

**Y Pregethwr 9:13 – 10:7**

Nid oes thema benodol yn yr adran hon: mae'r Pregethwr yn dilyn patrwm llenyddol llyfrau eraill Llên Ddoethineb, trwy ddweud stori, gwneud sylw a dyfynnu diarhebion. Efallai mai ei fwriad oedd gwarchod treftadaeth ddiwinyddol y doethion wrth roi ar gof a chadw rai o'u dywediadau. Gellir rhannu diarhebion pennod 10 yn dri chasgliad: adnodau 1-3, adnodau 4-7 ac adnodau 8-20.

**Dirmygu doethineb**

Mae'n bosibl mai bwriad y stori agoriadol (9:13 – 10:1), sy'n diweddu gyda thair dihareb, yw rhoi enghraifft o ddiffyg parch at farn y tlawd mewn drafodaeth, ynghyd â'r niwed y gall yr ynfyd ei wneud mewn cymdeithas.

'Pan fydd dyn cyfoethog yn siarad, bydd pawb yn ddistaw, ac yn canmol ei araith i'r cymylau. Pan fydd dyn tlawd yn siarad, gofynnant, "Pwy yw hwn?" Mae'r Pregethwr yn ymhelaethu gyda stori am ddyn tlawd a doeth a achubodd ddinas a oedd dan warchae brenin nerthol: 'Ac fe waredodd ef y ddinas trwy ei ddoethineb; eto ni chofiodd neb am y dyn tlawd hwnnw' (Preg. 9:15).

Mae'r stori'n arwain at y tair dihareb (9:16 – 10:1). Mae'r gyntaf yn pwysleisio grym doethineb. Mae mwy o werth mewn gair o gyngor tawel gan y gwybodus nag yng ngeiriau bygythiol llywodraethwr. Tystiodd hanes i hyn lawer gwaith. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd y gyferbyniaeth rhwng Dietrich Bonhoeffer ac Adolph Hitler yn amlwg iawn. Mae geiriau tawel y diwinydd a ddienyddiwyd am wrthwynebu polisi'r Natsïaid wedi goroesi; ond pwy all ddyfynnu cymal o areithiau ymfflamychol Hitler?

Mae'r ail ddihareb yn dangos pa mor fregus yw doethineb. Mae gweithredu'n ddoeth yn amlwg yn gwneud mwy o synnwyr na mynd i ryfel, ond mewn diwylliant ar ddisberod mae doethineb yn achos coll yn nwylo ynfytyn. Gall ffŵl ddadwneud 'llawer o ddaioni'. Pwysleisir hyn yn y drydedd ddihareb (10:1). Fel y mae 'ychydig lefain yn lefeinio'r holl does' (1 Cor.5:6), gall ychydig iawn o bryfed diwerth lygru potiad cyfan o bersawr gwerthfawr a pheri drewdod. Gall gair annoeth yr un modd ddod â chyfeillgarwch agos i ben; gall un achos o odineb arwain at ysgariad.

**Y doeth a'r ffôl**

I'r meddwl Hebreig, y galon oedd tarddle deall, ac ewyllys. Mewn sawl diwylliant, gan gynnwys Israel gynnar, defnyddir y dde a'r chwith yn symbolau o'r da a'r drwg, y moesol a'r anfoesol. (Preg. 10:2).

Mae deheulaw Duw 'yn llawn o gyfiawnder' (Salm. 48:10). Yn ei law dde hefyd y mae nerth 'a ddryllia'r gelyn' wrth achub ei bobl o'r Aifft (Ex. 15:6). Enw hoff fab Jacob oedd 'Benjamin', sy'n golygu 'mab y ddeheulaw'. Pan ddyrchafwyd Crist i'r nefoedd, eisteddodd ar ddeheulaw Duw (Ac. 2:33-34). Mewn darluniau o'r Croeshoeliad, portreadir yr Iddewon a'r Rhufeiniaid ar y chwith i Iesu a'i ddilynwyr ar y dde. Wrth ddilyn cymhellion ei galon sy'n 'ei droi i'r chwith', ni all y ffôl guddio'i ddiffyg synnwyr cyffredin, maent yn amlwg i bawb (Preg. 10:3).

Mae 10:4 yn ymwneud unwaith eto â sut i ymddwyn yn y llys brenhinol. Cyngor y Pregethwr i'r sawl sydd wedi ennyn llid llywodraethwr yw peidio â dychryn ond derbyn cerydd yn amyneddgar am mai dyna'r ffordd orau i liniaru dicter. Mae Llyfr y Diarhebion yn cytuno: 'Y mae ateb llednais yn dofi dig'; 'Y mae llid brenin yn gennad angau, ond fe'i dofir gan yr un doeth' (Diar.15:1; 25:15; 16:14). Trwy ymddwyn yn ddigynnwrf, mae'r doeth yn llwyddo i arbed sefyllfa anodd rhag mynd yn waeth.

Yn Preg. 10: 5-7, tynnir sylw eto at ddrwg a welodd 'dan yr haul'. Mae'n priodoli'r drygioni i 'gamgymeriad' llywodraethwr diffaith. Pwy bynnag oedd y rheolwr, drysodd y *status quo* trwy roi swyddi cyfrifol i ymgeiswyr diegwyddor ac annheilwng. O ganlyniad, newidiodd y ffŵl a'r cyfoethog eu lle.

Sylwer mai'r cyfoethog, ac nid y doeth, sy'n cyferbynnu â'r ynfyd yn y cyd-destun hwn. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw bod y doethion yn ochelgar rhag unrhyw newid ym mhatrwm byw cymdeithas a fyddai'n tarfu ar y drefn. Wedi'r cwbl, roeddent hwy eu hunain yn mwynhau breintiau byd y boneddigion. Ceir sawl enghraifft ohonynt yn dangos eu safbwynt ceidwadol, gwler Diar. 30:21-23.

**Cwestiynau**

1. "Mae mwy o werth mewn gair o gyngor tawel gan y gwybodus nag yng ngeiriau bygythiol llywodraethwr sy'n rhefru." Allwch chi feddwl am sefyllfaoedd sy'n cadarnhau hyn?
2. A yw pobl yn parchu barn y cyfoethog yn fwy na'r tlawd?

BBC radio cymru

***Oedfa Radio Cymru***
**22-Mehefin 12:00yp**

Dan ofal Dyfrig Rees, Penybont ar Ogwr mewn paratoad at gyfarfod Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

***Caniadaeth y Cysegr***
**22 Mehefin am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen o ganu emynau wedi eu cyflwyno gan Emlyn Davies, Pentyrch




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](www.gair.cymru)

# Iesu a Joseff yn dad iddo

Yn y Testament Newydd cawn nifer o gyfeiriadau at Joseff fel tad Iesu, yn arbennig ar gychwyn gweinidogaeth Iesu.

Mae Mathew a Luc yn olrhain achau Iesu yn ôl i Joseff fel ei dad. Mae Mathew yn cychwyn ei efengyl gyda'r cyflwyniad: '*Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham*'. (Mathew 1:1)

Yn ôl y llinach a welwn yn Mathew 1: 16, 'Yr oedd *Jacob yn dad i Joseff, gwr Mair*, a hi a roddodd enedigaeth i Iesu, a elwid y Meseia'.

Mae Luc 3:24 yn cadarnhau'r berthynas o dadolaeth rhwng Iesu a Joseff, gydag elfen o ansicrwydd, er hynny, mai Joseff oedd y tad: 'Yr oedd *Iesu yn fab, yn ôl y dybiaeth gyffredin, i Joseff*, fab *Eli*, fab Mathat, fab Lefi…'. Mae Luc yn fwy uchelgeisiol na Mathew ac yn olrhain tras Iesu yn ôl i Adda, fab Duw.

**Rhinweddau Joseff**

Roedd Joseff yn '*ffyddlon i'r gyfraith*' / '*yn ddyn cyfiawn*', ond heb ddymuno cywilyddio Mair yn gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gŵr, ei gollwng ymaith yn ddirgel (Mathew 1:19). Yn ôl stori Mathew, angel sy'n perswadio Joseff mewn breuddwyd i ail feddwl ac yn ei gymell i briodi Mair ei ddyweddi er nad oeddent wedi cael cyfathrach nes bod Iesu wedi ei eni.

**Hanes Iesu yn ymweld â'r deml pan oedd yn12 oed.**

(Luc 2: 27,33,48).

Diddorol yw nodi sylw pwysig Luc ar ddechrau'r hanes am ymweliad Iesu â'r deml pan oedd yn 12 mlwydd oed, bod Mair a Joseff yn arfer teithio i Jerwsalem yn flynyddol er mwyn dathlu Gŵyl y Pasg. Fe gofiwch y stori bod Iesu wedi ymgolli yn llwyr yn ei werthfawrogiad a'i fwynhad amlwg o'r trafodaethau deallus yng nghwmni pobl ddysgedig y ddinas.

Mae'n syndod efallai, nad oedd Mair a Joseff wedi sylweddoli yn gynt nad oedd y crwt deuddeg oed ymhlith ei fêts a'r fintai o deuluoedd oedd wedi hen gychwyn ar eu taith yn ôl i'w cynefin yn y Gogledd ers tridiau.

Sylwer mai Mair, y fam, sy'n ceryddu Iesu ar ôl cael hyd i'r crwt oedd wedi ymgolli yn llwyr yn y sgwrsio goleuedig gydag athrawon profiadol yn y lle sanctaidd. Dyma eiriau'r fam, "Dyma *dy dad* a minnau yn llawn pryder wedi bod yn chwilio amdanat".(Luc 2: 48).

Mae'n arwyddocaol iawn, yn fy nhyb i, bod Mair wedi sicrhau bod Iesu yn



ystyried Joseff yn dad iddo, hyd yn oed os nad Joseff oedd tad biolegol Iesu.

**Tyfiant Iesu**

Mae'r geiriau, *"Ac yr oedd Iesu yn cynyddu mewn doethineb, a maintioli, a ffafr gyda Duw a'r holl bobl.*", (Luc 2: 52 BCND), yn tanlinellu'r hyn a ddatgelir am naturioldeb bywyd dynol y plentyn deuddeg mlwydd oed. Hynny yw, os nad oedd Iesu yn hollwybodol yn ôl y disgrifiad hwn, mae hyn yn awgrymu nad oedd yn ddwyfol neu ei fod efallai yn cuddio neu'n cyfyngu ar elfen o'i ddwyfoldeb tybiedig. Efallai bod hyn yn fater sensitif a dadleuol i rai o'n plith sy'n mynnu parhau i roi pwyslais trwm iawn ar ddwyfoldeb (felly, hollwybodaeth) Iesu, yn arbennig fel rhoddwyd y pwyslais yn Credo Nicea, mil saith gant o flynyddoedd yn ôl (325 o.c.).

Mae nifer o ysgolheigion yn tynnu ein sylw at y ffaith mai gwan ac annigonol iawn yw'r dystiolaeth ysgrythurol bod Iesu yn "*Dduw o wir Dduw".*

(Yr honiad ysgolheigaidd yw bod mwy o awgrymiadau yn yr Efengylau am ddynoliaeth naturiol Iesu fel, er enghraifft, mae Luc yn ei gofnodi yn yr hanes hwn, pan oedd Iesu ar ei brifiant yn ddeuddeg mlwydd oed.)

**Fel plentyn naturiol roedd angen i Iesu yn ôl yr efengyl yn ôl Luc 2:52:**

a) i dyfu yn gorfforol, ddynol, iach a chryf.

b) I aeddfedu o ran ei ddealltwriaeth, ei wybodaeth a'i ymwybyddiaeth am fyd ei fagwraeth yn Nasareth a'r byd tra gwahanol yn y brifddinas.

c) I gynyddu a datblygu o ran ei fywyd ysbrydol yn ei berthynas ag Abba, ei dad nefol.

ch) I feithrin sgiliau cymdeithasol pwysig a gwerthfawr fyddai yn fanteisiol iawn i Iesu wrth iddo gwrdd ag amrywiaeth o bobl tra gwahanol i'w gilydd yn ei weinidogaeth gyhoeddus ymhen tua deunaw mlynedd.

**Pam bod awduron y Testament Newydd yn mynegi diffyg parch at Joseff gan eu bod yn diystyru a dibrisio rôl allweddol Joseff fel tad ym mywyd Iesu?**

Dwi'n ei chael hi'n anodd deall, ers tro bellach, pam nad oes mwy o sôn am Joseff yn yr efengylau ar ôl yr hanes am yr ymweliad â Jerwsalem pan oedd Iesu yn ddeuddeg mlwydd oed. Does dim, hyd yn oed, cyfeiriad at farw Joseff na'i angladd. Gwyddom am gyfeiriadau sy'n adrodd bod Mair wedi cael mwy o blant ar ôl geni Iesu. Ai Joseff oedd eu tad hwy neu ai ei blant o ydyn nhw o briodas arall?

Gallwn resymu yn hyderus, bod Joseff wedi marw erbyn i Iesu gael ei groeshoelio gan nad yw'n cael ei enwi fel Mair ei wraig ac eraill oedd yn dystion i'r erchylltra creulon ar domen sbwriel Jerwsalem. Mae'r dybiaeth bod Joseff wedi marw yn cael ei chadarnhau gan fod Iesu yn annog '*y disgybl roedd yn ei garu'* i ofalu am ei annwyl fam. *'Ac o'r awr honno, cymerodd y disgybl hi i mewn i'w gartref'* (Ioan 19:26-27).

**Ein dyled a'n diolch i Joseff**

Oni ddylem fod yn wirioneddol ddiolchgar i Joseff am briodi Mair, er yr amheuaeth a'r ansicrwydd pwy oedd tad y babi yn ei chroth. Byddai Mair wedi cael ei chywilyddio yn gyhoeddus os nad oedd yn briod ac yn magu plentyn 'siawns' yn nhyb rhai o'i theulu a'i chymdogion. Dylem fod yn ddiolchgar iawn hefyd bod Joseff wedi dewis ffoi i'r Aifft liw nos ac aros yno hyd farwolaeth y brenin Herod. (Efengyl Mathew yw'r unig un o'r efengylau sy'n cofnodi hyn: Mathew 2: 13-15).

*Gwilym Wyn Roberts, Caerdydd*

## Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parchedig D Hugh Francis, Clydach. Gwasanaethodd Hugh yn Eglwysi Noddfa, Garnswllt a Bethania, Clydach; Penuel, Casllwchwr a Seion Noddfa, Gorseinon. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Rita a diolchwn am ei gyfraniad gwerthfawr a chyfoethog i waith y Deyrnas.

# Ymuno â'r eglwys leol – Capel Coffa Williams Pantycelyn, Llanymddyfri



Gyda llawenydd mawr y croesawom dri ar ddeg o bobl yn aelodau yng Nghapel Coffa Williams Pantycelyn, Llanymddyfri, ddydd Sul, 1af Mehefin 2025.

Roedd y rhai ohonom a ddaeth yn aelodau yn amrywio o ran oedran o ryw ugain hyd at tua phedwar ugain (ni chaniateir i mi fod yn fwy manwl na hynny!!)

Bu'r Parchedig Jenny Garrard yn ddigon caredig â dod draw i Llanymddyfri i gymryd yr addewidion a gwrando ar ein datganiadau o ffydd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Jenny, sydd wedi gwasanaethu'r eglwys ledled y wlad ers blynyddoedd lawer, a'n croesawodd ni i deulu Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chynhesrwydd mor ddiffuant a didwylledd personol.

Yn yr wythnosau a'r misoedd blaenorol, roeddem wedi cwrdd fel cymuned eglwys ac wedi siarad am berthnasedd, angenrheidrwydd ac egwyddorion Beiblaidd y tu ôl i fod yn 'aelodau o deulu'r ffydd'. Beth oedd y breintiau a'r cyfrifoldebau?

Pam, yn 2025, bod angen o gwbl bod yn 'aelodau' mewn eglwys?

Y testun y siaradais arno bryd hynny fel gweithiwr cenhadol yn ein plith, oedd:

**'Mae fy nefaid yn gwrando ar fy llais; yr wyf fi'n eu hadnabod, ac maent yn fy nilyn i.' Ioan 10:27**

Yn gyntaf, ***hunaniaeth*** – rydym ni i gyd fel defaid wedi mynd ar gyfeiliorn ond yn cael ein galw yn ôl gan y Bugail Da, wrth ein henwau. Nid am fod yn ddefaid clyfar a theilwng y awn ein galw ato, ond oherwydd ei gariad a'i ras. Rydym yn ei garu oherwydd iddo ef ein caru ni yn gyntaf.

Yn ail, ***agosatrwydd*** – mae Iesu'n ein hadnabod ni; nid yn unig mae'n gwybod amdanom ni, ond mae'n ein hadnabod ni... "warts and all" (fel y dywedir). Wrth i ni wrando ar ei lais rydym yn ymateb trwy ei ddilyn. Mae cyfarfyddiad â Christ, fel y darganfu Paul ar y ffordd i Ddamascus, yn arwain ei ddilyn.



Capel Coffa William Williams yn Llanymddyfri

Yn drydydd, ***perthyn*** – nid ydym yn cael ein galw i fod yn ddefaid unig, crwydrol. Yn y ddameg yn Luc 15, mae'r bugail yn chwilio am yr un ddafad sydd wedi'i gwahanu oddi wrth y praidd. Mae'r un ddafad hon mewn perygl, yn ddiamddiffyn, heb gwmni, teulu, bwyd, cynhaliaeth na diogelwch. Mae'r bugail yn gadael diogelwch y praidd ac yn ceisio achub y ddafad goll honno, ei hachub ar gyfer cymuned a chymdeithas gyda'r praidd.

Roedd yn bleser i mi sefyll i fyny'n gyhoeddus ac unwaith eto ddatgan gwirioneddau mawr y ffydd Gristnogol. Roedd yn llawenydd ac yn fraint gallu gwneud addewidion o wasanaeth ac ymroddiad i gymdeithas y credinwyr yn enw'r Efengyl.

Wedi'r cyfan, faint yn fwy unol ag ewyllys Duw allwn ni fod nag wrth garu a gwasanaethu ei eglwys? Yr eglwys yw'r bobl wrth gwrs. Y tlysau gras hynny sy'n eiddo gwerthfawr iddo, priodferch Crist. Rhoddodd Crist ei hun dros yr eglwys. Mae hyn mor ddwfn a rhyfeddol i feddwl amdano! Mor ddwfn a rhyfeddol y dylem ni garu Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist!

Adroddir bod Spurgeon wedi rhannu'r darlun hwn ag ymwelydd â'i astudiaeth, oedd wedi dod i wneud esgusodion pam nad oedd wedi bod i gyfarfodydd yr eglwys ers tro.

Plygodd y pregethwr mawr ymlaen, mae'n debyg, a chymryd y gefel oedd ger y lle tân. Heb ddweud gair, cymerodd un clap o lo o'r tân a'i osod ar yr aelwyd. Dechreuodd y glo, a oedd wedi llosgi'n llachar yn y tân ymhlith y clapiau eraill, bylu, gan oeri'n fuan nes ei fod yr un lliw â'r lludw. Eisteddodd Spurgeon yn ôl yn ei gadair a gwahodd y dyn i fyfyrio ar yr effaith yr oedd yr amser y bu i ffwrdd oddi wrth gymdeithas yr eglwys wedi ei gael ar ei fywyd ysbrydol.

Yr eglwys leol yn ei holl weithgareddau (nid yn unig ar y Sul) yw'r fan lle ceir cymdeithas a bendith, boed hynny mewn cyfarfodydd gweddi Zoom, cadwyni gweddi WhatsApp, e-bost, YouTube neu wyneb yn wyneb mewn caffis, grwpiau tai, ac yn y capel ei hun.

Beth bynnag yw'r amlygiad o'r eglwys, mae'n werthfawr i Dduw, ac yn eiddo arbennig iddo. Gadewch i ninnau ei gwerthfawrogi a'i chofleidio, ei meithrin a rhoi ein holl egni iddi.

Rwyf i fy hun wrth fy modd fy mod wedi cael dod yn aelod yng Nghapel Coffa Williams Pantycelyn, Llanymddyfri a chofio'r hyn oll a gynrychiolir ac a gofir yno. Un lle bach ond arwyddocaol iawn yng ngwinllan fy Mrenin. A wnewch chi ymuno â mi i weddïo am weld eglwys fywiog a disglair yma yn Llanymddyfri, ac ar draws Cymru? Un sy'n pelydru cariad Duw, yn lledaenu arogl iachawdwriaeth.

Gobeithio y bydd newyddion am yr aelodau newydd hyn yn Llanymddyfri yn cynhesu eich calonnau wrth ddarllen. Gweddïwch drosom ni, fel y gweddïodd Paul yn rhyfeddol dros yr eglwys yn Effesus yn Effesiaid 3, fel y gallwn ninnau gael ein llenwi yn llawn hyd at fesur holl gyflawnder Duw! Am weddi dros yr eglwys!

***Effesiaid 3: 14-21***

*Oherwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau gerbron y Tad, (15) yr hwn y mae pob teulu yn y nefoedd ac ar y ddaear yn cymryd ei enw oddi wrtho, (16) ac yn gweddïo ar iddo ganiatáu i chwi, yn ôl cyfoeth ei ogoniant, gryfder a nerth mewnol trwy'r Ysbryd, (17) ac ar i Grist breswylio yn eich calonnau drwy ffydd. (18) Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, (19) a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth. Felly dygir chwi i gyflawnder, hyd at holl gyflawnder Duw. (20) Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu, trwy'r gallu sydd ar waith ynom ni, (21) iddo ef y bo'r gogoniant yn yr eglwys ac yng Nghrist Iesu, o genhedlaeth i genhedlaeth, byth bythoedd! Amen.*

*Patrick Thomas*
*Llanymddyfri*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru